

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL

(MEMORANDWM RHIF 2)

BIL BANC SEILWAITH Y DU

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru ("y Senedd") os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd Bil Banc Seilwaith y DU ("Y Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 11 Mai 2022. Cyhoeddwyd creu banc seilwaith y DU ("y Banc") gyntaf gan y Canghellor yn Adolygiad o Wariant 2020. Lanswyd y Banc ar sail anstatudol ar 17 Mehefin 2021, ac mae eisoes wedi dechrau gwneud buddsoddiadau.
3. Gosodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf ar 25 Mai 2022, gan roi sylw i ddarpariaethau yn y Bil fel y'i cyflwynwyd.
4. Daeth Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi i ben ar 14 Mehefin 2022. Ni phleidleisiwyd ar unrhyw welliannau yn y Cyfnod Pwyllgor, ac ni fabwysiadwyd unrhyw welliannau.
5. Cafodd gwelliannau i'r darpariaethau yn y Bil eu cyflwyno i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2022 a chytunwyd ar rai ohonynt (gwelliannau'r llywodraeth yn bennaf, ond nid yn llwyr). Mae'r gwelliannau hyn yn gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd y mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn yn rhoi sylw iddynt.
6. Mae'r Bil fel y'i gosodwyd gyntaf i'w weld ar wefan Senedd y DU: [UK Infrastructure Bank Bill \[HL\] - Parliamentary Bills - UK Parliament](#)
7. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gofyn am welliannau sy'n ymwneud â chylch gwaith y banc mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i sicrhau bod datganoli'n cael ei barchu, ond hyd yn hyn nid yw Llywodraeth y DU wedi gwneud unrhyw newidiadau o'r fath eto.

Amcanion polisi

8. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yn y Bil yw sefydlu'r Banc i helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a chefnogi twf economaidd rhanbarthol a lleol drwy ddarparu mynediad at offerynnau ariannol, gan gynnwys benthyciadau i awdurdodau lleol i alluogi buddsoddi mewn seilwaith. Bydd yn gweithredu ledled y DU.

Crynodeb o'r Bil

9. Noddir y Bil gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

10. Diben datganedig Llywodraeth y DU yn y Bil hwn yw gosod y Banc ar sail statudol. Mae'r Banc yn sefydliad annibynnol yn weithredol sydd ym mherchnogaeth lwyr y llywodraeth.
11. Drwy osod y Banc ar sail statudol, mae'r Bil yn ceisio:
- a) cadarnhau a rhoi grym statudol i amcanion a gweithgareddau'r Banc;
 - b) sicrhau bod y Banc yn sefydliad hirhoedlog;
 - c) creu ffurfiau statudol o dryloywder, atebolrwydd a llywodraethiant ar gyfer y Banc;
 - d) dileu rhwystrau cyfreithiol sy'n atal y Banc rhag benthycu'n uniongyrchol i'r awdurdodau lleol; a
 - e) rhoi pwerau penodol i'r Trysorlys i roi cymorth ariannol i'r Banc.

Rhychwant tirioegaethol a chymhwyso

12. Mae'r Bil yn ymestyn ac yn gymwys i'r Deyrnas Unedig gyfan.
13. Mae buddsoddi mewn seilwaith yn gymysgedd o gymhwysedd a gedwir yn ôl a chymhwysedd wedi ei ddatganoli. Mae materion sy'n ymwneud ag ynni, rheilffyrdd trawsffiniol a chyfathrebu digidol yn achosion lle mae buddsoddi mewn seilwaith yn debygol o ddod o fewn cymhwysedd a gedwir yn ôl. Mae materion eraill megis rheilffyrdd, porthladdoedd neu bontydd o fewn un wlad neu ardal ddatganoledig yn debygol o ddod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Gwelliannau y cytunwyd arnynt yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

14. Fel y nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf, mae angen cydsyniad y Senedd ar y Bil cyfan gan fod gan y Senedd gymhwysedd i ddeddfu yn yr un termau neu dermau tebyg mewn perthynas â Chymru.
15. Nodir isod y gwelliannau y cytunwyd arnynt.

Cymal 2

Y cymal gwreiddiol:

16. *Cymal 2 – Amcanion a gweithgareddau*
17. *Mae hyn yn pennu beth fydd amcanion a gweithgareddau'r Banc. Amcanion y Banc yw helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a chefnogi twf economaidd. Gweithgareddau'r Banc yw darparu cymorth ariannol i brosiectau sy'n ymwneud â seilwaith (i gynnwys dŵr, trydan, nwy, telathrebu, carthffosiaeth, rheilffyrdd (gan gynnwys cerbydau rheilffyrdd), ffyrdd neu fathau eraill o drafnidiaeth a newid yn yr hinsawdd), darparu benthyciadau i awdurdodau cyhoeddus ar gyfer prosiectau o'r fath a darparu gwasanaethau cynghori a chymorth eraill ar gyfer prosiectau o'r fath.*
18. Mae angen cydsyniad – gall y Senedd ddeddfu i roi'r swyddogaethau hyn (sydd, fel uchod, eu hunain yn ymwneud â meysydd datganoledig o'r gyfraith) i gorff y mae'n ei greu.

Gwelliannau y cytunwyd arnynt i gymal 2:

Gwelliant 6A

19. Mae'r gwelliant arfaethedig yn ehangu'r diffiniad o 'seilwaith' ('*infrastructure*') at ddibenion y Bil er mwyn cynnwys strwythurau sy'n sail i'r economi gylchol, ac atebion ar sail natur.
20. Mae angen cydsyniad – nid yw'r gwelliant arfaethedig yn effeithio ar y dadansoddiad cymhwysedd ar gyfer y cymal gwreiddiol, ac felly deuir i'r casgliad bod angen cydsyniad.

Gwelliant 8

21. Mae'r gwelliant arfaethedig yn ehangu'r diffiniad o 'seilwaith' ('*infrastructure*') at ddibenion y Bil er mwyn ei gwneud yn glir bod effeithlonrwydd ynni, mewn perthynas â thrydan, nwy a darpariaeth gwres, o fewn y diffiniad o seilwaith.
22. Mae angen cydsyniad – nid yw'r gwelliant arfaethedig yn effeithio ar y dadansoddiad cymhwysedd ar gyfer y cymal gwreiddiol, ac felly deuir i'r casgliad bod angen cydsyniad.

Gwelliant 12

23. Mae'r gwelliant arfaethedig yn ychwanegu gofyniad llywodraethiant ar gyfer y Banc ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Banc roi sylw i Bapur Gwyn Ffyniant Bro y Llywodraeth wrth arfer ei swyddogaethau.
24. Mae angen cydsyniad – nid yw'r gwelliant arfaethedig yn effeithio ar y dadansoddiad cymhwysedd ar gyfer y cymal gwreiddiol, ac felly deuir i'r casgliad bod angen cydsyniad.

Cymal 9

Y cymal gwreiddiol:

25. *Cymal 9 - Adolygiadau o effeithiolrwydd ac effaith y Banc*
26. *Mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Drysorlys Ei Mawrhydi gynnal adolygiadau o effeithiolrwydd y Banc o ran cyflawni ei amcanion a'i effaith mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd a thwf economaidd rhanbarthol a lleol. Ar ôl pob adolygiad, rhaid i Drysorlys Ei Mawrhydi gyhoeddi adroddiad ar yr adolygiad a gosod copi o'r adroddiad gerbron Senedd y DU.*
27. Mae angen cydsyniad – mae gan y Senedd gymhwysedd i osod rhwymedigaethau o'r fath ar gorff tebyg i'r Banc y mae wedi'i greu ac ar Weinidogion Cymru o ran cyhoeddi adroddiad o'r adolygiad a gosod copi o'r adroddiad gerbron y Senedd.

Gwelliannau y cytunwyd arnynt i gymal 9:

Gwelliannau 22, 23, 25-29, 31, 33

28. Mae'r gwelliannau arfaethedig hyn yn newid gofynion gweinyddol y Trysorlys fel y'u nodwyd yn y cymal gwreiddiol. Yn benodol, mae'r adolygiadau sy'n ofynnol o dan gymal 9: (a) i gael eu cynnal gan berson annibynnol (yn hytrach na chan y

Trysorlys) a (b) i fanylu ar y graddau y mae buddsoddiadau'r Banc yn annog buddsoddi ychwanegol gan y sector preifat. Mae'r gwelliannau arfaethedig hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Trysorlys gyhoeddi'r adolygiad a gynhelir gan y person annibynnol ac yn addasu'r terfyn amser ar gyfer cwblhau'r adolygiad cyntaf i 7 (yn hytrach na 10) mlynedd.

29. Mae angen cydsyniad – nid yw'r gwelliant arfaethedig yn effeithio ar y dadansoddiad cymhwysedd ar gyfer y cymal gwreiddiol, ac felly deuir i'r casgliad bod angen cydsyniad.

Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad

30. Mae barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad yn parhau i fod yr un fath â'r farn a amlinellwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf a gyflwynwyd ar 25 Mai 2022.

Safbwynt Polisi Presennol Llywodraeth Cymru

31. Mae safbwynt Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yr un fath â'r safbwynt a amlinellwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol blaenorol.

32. Nid yw'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn darparu unrhyw rôl i'r Senedd, Gweinidogion Cymru, na swyddogion Llywodraeth Cymru o ran llywodraethiant y Banc, tra'n cadw gweithgareddau penodol ar gyfer Senedd y DU, y Canghellor a Thrysorlys Ei Mawrhydi, megis y pŵer i Drysorlys Ei Mawrhydi ddiwygio cyfeiriad strategol y Banc gan gynnwys mewn meysydd lle mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli heb ymgynghori â'r Senedd na Llywodraeth Cymru.

33. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Thrysorlys Ei Mawrhydi er nad oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud ar welliannau hyd yma.

Goblygiadau ariannol

34. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r memorandwm hwn.

Casgliad

35. Fel y nodir uchod, mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer pob gwelliant i'r Bil.

36. Mae'r Bil o bryder cyfansoddiadol o hyd i Lywodraeth Cymru. Er gwaethaf rhinweddau rhai o'r cymalau, mae safbwynt terfynol Gweinidogion Cymru ynghylch a ddylid argymhell cydsyniad yn ddarostyngedig i ganlyniad trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth y DU ynghylch cyflwyno gwelliannau i'r Bil.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
8 Gorffennaf 2022